

Eitem: 11

Teitl: Yr Hyn Rydyn Ni'n ei Glywed C1 a C2

Gweithredu / Action required	I'w drafod a'i nodi.
Amseru / Timing	Y cyfnod o fis Ebrill i fis Medi 2026
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd: 1. nodi'r hyn a ddywedodd pobl ledled Cymru wrthym ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol rhwng mis Ebrill a mis Medi 2026; 2. nodi datblygiad adroddiad llawn Yr Hyn Rydyn Ni'n ei Glywed, ynghyd â'i gyhoeddi.
Risg / Risk	Mae'r prif risgiau'n cael eu deall a'u rheoli: • Cryfder y dystiolaeth. Mae'r canfyddiadau'n deillio o bobl a oedd wedi dewis rhannu eu profiad. Rydym yn adrodd ar batrymau'n onest, heb honni pa mor gyffredin ydynt, ac yn profi'r hyn a glywn yn erbyn tystiolaeth o safbwynt rheoleiddiol, craffu a pholisïau. • Cydsyniad ac enwi gwasanaethau. Bydd cydsyniad ar gyfer straeon unigol a chaniatâd i enwi gwasanaethau'n cael eu cadarnhau cyn eu cyhoeddi. • Ehangder y dystiolaeth. Mae ein tystiolaeth o ran gofal cymdeithasol yn tyfu, gyda chefnogaeth rôl newydd yr hyrwyddwr gofal cymdeithasol, ac rydym yn parhau i ehangu pwy yr ydym yn clywed ganddynt. • Budd y cyhoedd. Gall rhai canfyddiadau ddenu diddordeb yn y cyfryngau. Bydd cyfathrebiadau'n cael eu cynllunio ochr yn ochr â'r cyhoeddiad.
Cyllid / Finance	Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol. Bydd costau cyhoeddi, cyfieithu a fformatau hygyrch yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynlllyn strategol/ Strategic plan objective	Amcan 1, sbarduno trafodaeth genedlaethol am ddyfodol gofal iechyd a gofal cymdeithasol (yn benodol, y canlyniadau allweddol 1.1, defnyddio Egwyddorion y Bobl, ac 1.2, seilio trafodaethau cenedlaethol ar brofiad bywyd), ac amcan 2, pwysu am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Mae'r canfyddiadau'n dangos sut mae anabledau/namau, y Gymraeg, anghenion cyfathrebu, allgáu digidol a byw mewn ardaloedd gwledig yn llywio profiad pobl o ofal, yn ogystal ag effaith benodol yr oedi o ran llawdriniaeth cadarnhau rhywedd ar y gymuned draws. Rydym yn parhau i ehangu'r ystod o bobl rydym yn gwrandao arnynt, gan gynnwys pobl sy'n profi digartrefedd, plant a phobl ifanc, a phobl fyddar.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau a ganlyn os fydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Dirprwy Brif Weithredwr
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Mae'r Adroddiad Perfformiad (eitem 10) yn nodi'r hyn a wnaethom gyda'r hyn a ddywedodd pobl wrthym yn ystod yr un cyfnod.
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Becky Lythgoe / Ben Eaton
Dyddiad / Date	Hydref 2026
Cefndir / Background and Manylion / Detail	
1. Pwrpas Mae'r papur hwn yn cyflwyno crynodeb o Yr Hyn Rydyn Ni'n ei Glywed ar gyfer y cyfnod o Ebrill i fis Medi 2026. Mae'n amlinellu'r hyn a ddywedodd pobl wrth Llais am eu profiad o ofal iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'i ddadansoddi yn erbyn Egwyddorion y Bobl. Dyma'r adroddiad ategol i'r Adroddiad Perfformiad (eitem 10), sy'n dangos beth a wnaethom gyda'r hyn a ddywedodd pobl wrthym, a'r gwahaniaeth a wnaeth hynny.	

2. Pam mae hyn yn bwysig

Mae Llais yn bodoli er mwyn i leisiau pobl lywio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Daw pob canfyddiad yn y papur hwn gan bobl a gymerodd yr amser i ddweud wrthym am eu gofal, gan obeithio'n aml y bydd pethau'n gwella i eraill yn ogystal â nhw eu hunain. Mae'r papur hwn yn dangos sut rydym yn sicrhau bod y profiadau hynny'n cael eu clywed yn lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Dyma gam "gwrandawyd" y gadwyn effaith a nodwyd yn yr Adroddiad Perfformiad: cynlluniwyd, gwrandawyd, gweithredwyd, sicrhawyd a chanlyniad. Mae'r hyn a glywn yma yn llywio ein sylwadau, ein hymngysylltiad o ran newid gwasanaethau, ynghyd â'n hymatebion i bolisiâu cenedlaethol, a dyma lle mae ein llais lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn dod ynghyd.

3. Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym

Yn aml, mae dod o hyd i'ch ffordd drwy ofal yn anoddach na'i gael. Mae pobl yn disgrifio gorfod mynd ar drywydd atgyfeiriadau, ailadrodd eu stori a pheidio â gwybod pwy sy'n gyfrifol, gyda theuluoedd wedyn yn gorfod cydlynu eu gofal eu hunain. Mae hyn yn ymwneud â sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd, nid dim ond capasiti.

Mae'r hyn sy'n digwydd unwaith y bydd gofal yn dechrau yr un mor bwysig â chael eich derbyn i'r system. Triniaeth, cael diagnosis ac agweddau aelodau staff yw'r rhesymau mwyaf cyffredin o ran pam mae pobl yn dod at ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

Mae cyfran lai o'r hyn a glywn yn ymwneud â gofal cymdeithasol, ond yn aml mae'n fwy difrifol o ran ei ganlyniadau, ac mae'n sail i lawer o brofiadau o fewn y GIG, fel oedi wrth ryddhau cleifion a phwysau ar ofalwyr di-dâl.

Mae penderfyniadau cenedlaethol yn cael eu teimlo'n lleol. Cafodd pryderon o ran yr oedi o ran llawdriniaeth cadarnhau rhywedd, gofynion cymhwysra llymach ar gyfer cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, ynghyd ag oediadau cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, oll eu cyflew'n gryf, yn enwedig o ran y sefyllfa mewn ardaloedd gwledig.

Mae gofal da yn edrych yr un peth ym mhobman. Mae pobl yn cael eu clywed, mae gwybodaeth yn eu dilyn, mae rhwystrau'n cael eu cydnabod ac mae rhywun yn ymateb iddynt ac yn eu datrys. Rydym yn clywed hyn ym mhob rhanbarth. Gellir cyflawni Egwyddorion y Bobl, ac mae arferion da eisoes ar waith i adeiladu arnynt.

4. Beth mae hyn yn ei olygu i bobl a chymunedau ledled Cymru

Mae Llais yn clywed gan bobl ym mhob rhan o Gymru, ac rydym yn gweithredu ar sail yr hyn a glywn. Bydd y profiadau y mae pobl wedi'u rhannu â ni yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, y Senedd a'r sefydliadau sy'n cynllunio ac yn darparu eu gofal. Mae eu neges yn gyson: maen nhw eisiau i rywun wrando arny'n nhw, a'u diweddarau a chael eu cefnogi gan wasanaethau sy'n cydweithio. Bydd profiadau pobl mewn cymunedau gwledig, y rhai y mae penderfyniadau cenedlaethol yn effeithio arnynt, a'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed mor aml, yn cael eu hystyried yn o ddifrif, ochr yn ochr â phrofiadau pawb arall.

5. Beth mae hyn yn ei olygu i Llais

- **Ein blaenoriaethau ar gyfer gweddill y flwyddyn.** Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysau'r gaeaf, gan gynnwys trosglwyddo clefion o ambiwlansys, yr agweddau ar gynlluniau'r byrddau iechyd ar gyfer y gaeaf yr ydym yn eu hadolygu, o safbwynt pobl; ynghyd â chyfathrebu a'r modd y mae clefion yn gorfod dod o hyd i'w ffordd drwy'r system; gofal cymdeithasol; a'r gwasanaeth rhywedd.
- **Ein llais cenedlaethol.** Mae'r crynodeb yn darparu sylfaen dystiolaeth i Llais ar sail Cymru gyfan, a drefnir ar sail Egwyddorion y Bobl, er mwyn arwain y sgwrs genedlaethol a llywio blaenoriaethau Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd.

6. Cryfhau ein mewnwelediad

Mae ein dadansoddiad yn gwella ym mhob adroddiad. Mae gennym ddealltwriaeth dda o'r gwelliannau y mae angen i ni eu gwneud, ac mae gwaith ar y gweill yn y cyswllt hwnnw. Mae datblygu ein pobl, ein systemau a'n gweithdrefnau yn gofyn am amser a gofal, ac mae hyn yn cael ei gydbwyso ochr yn ochr â'r hyn rydym yn ei gyflawni ar gyfer y bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

7. Y Camau Nesaf

- Cyhoeddi adroddiad llawn Yr Hyn Rydyn Ni'n ei Glywed erbyn mis Tachwedd.
- Rhannu'r canfyddiadau gyda Gweinidogion Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd a phartneriaid, a datblygu briff ar gyfer y Gweinidogion ac asiantaethau partner.